

## Aelod Cabinet dros Addysg a Plant a Phobl Ifanc Cyngor Gwynedd

**Prif Faterion 2012 - 2017**

**NOD : Rhoi cyfle i bob plentyn ddatblygu'n llawn**

(Cynllun Busnes Yr Adran Addysg : Anelu at sefyllfa ble y cyflawna holl ddisgyblion Gwynedd eu potensial)

Prif Ffocws: y plentyn / y person ifanc / y teulu

- Creu cyfle am well bywyd i blant, pobl ifanc a theuluoedd Gwynedd
- Gwella'r cynnydd ar hyd llwybrau bywyd yr unigolyn gwaeth beth fo'i gefndir/amgylchiadau; tracio a monitro'r cynnydd a helpu symud y materion sy'n rhwystro'r cynnydd
- Cynnig addysg o'r ansawdd gorau er mwyn creu unigolion cyflawn a chanddynt syniad cryf o berthyn
- Rhoi sgiliau perthnasol i'n bobol ifanc ar gyfer bywyd a byd gwaith
- Datblygu a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol plant a phobl ifanc Gwynedd
- Rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch, amddiffyn a lles plant
- Adrodd ar lwyddiannau drwy lygaid y plant / pobl ifanc / teuluoedd
- Cynnwys plant a phobol ifanc wrth greu newid a gwrando ar eu llais

I wneud hyn rhaid:

**a) Sicrhau cysondeb i ansawdd profiadau plant a phobl ifanc yn ein hysgolion**

**b) Creu Cyfundrefn Addysg fydd yn ffynnu i'r dyfodol**

**c) Rhoi sylw arbennig i blant / pobol ifanc / teuluoedd sydd angen cefnogaeth ychwanegol er mwyn datblygu'n llawn**

.....

**a) Sicrhau cysondeb yn ansawdd profiadau plant a phobl ifanc yn ein hysgolion** (Cau'r Bwlch rhwng disgyblion a'i gilydd, rhwng ysgol ac ysgol a rhwng dosbarthiadau oddi fewn i'r un ysgol)

- gwella safonau isel a lledaenu arfer da
- codi safonau llythrennedd a rhifedd
- rhoi sylw i berfformiad treigl ysgolion (dros 3 blynedd)
- rhoi sylw i brofiad a chynnydd yr unigolyn drwy gytuno ar raglenni gwaith
- datblygu hyfforddiant priodol i'r gweithlu cyfan
- datblygu sgiliau arweinyddiaeth a gallu arweinwyr ac athrawon i ysbrydoli disgyblion
- datblygu sgiliau llywodraethwyr i fod yn gyfeillion beirniadol
- rhoi pwyslais ar holl waith y blynyddoedd cynnar
- gwneud y defnydd gorau o'r Gwasanaeth Gwella Addysg Rhanbarthol

.....

## **b) Creu Cyfundrefn Addysg fydd yn ffynnu i'r dyfodol**

**Cynnal adolygiad cyllidol : cymharu gwariant addysg Gwynedd gyda siroedd eraill a sicrhau cysondeb os oes angen**

### **Ad-drefnu ysgolion cynradd ac uwchradd**

- Cyflawni'r gwaith ad-drefnu sydd wedi ei gymeradwyo yn barod
- Creu Cynllun Blaenoriaethau ad-drefnu yn sgil amgylchiadau newydd er mwyn ymateb i amgylchiadau eithriadol / argyfyngus e.e. niferoedd bychain, cyflwr adeiladau, problemau recriwtio arweinwyr
- Rhoi sylw i drefniadaeth addysg ym Meirionnydd
- Datblygu addysg feithrin yn ein hysgolion
- Cynnal adolygiad llawn o anghenion y dyfodol

### **Datblygu Addysg ôl-16 gyda chwricwlwm addas**

.....

## **c) Rhoi sylw arbennig i blant / pobol ifanc / teuluoedd sydd angen cefnogaeth ychwanegol er mwyn datblygu'n llawn**

**Datblygu Addysg Arbennig** drwy symud mlaen i greu canolfan rhagoriaeth addysg arbennig (Hafod Lon newydd)

**Parhau i addasu i ateb gofynion disgyblion gydag anawsterau dysgu ychwanegol a phroblemau ymddygiad (Strategaeth Cynhwysiad)**

### **Datblygu Rhaglenni (gan gynnwys rhai Aml-Asiantaethol) pwrpasol ag iddynt dargedau clir sy'n osgoi dyblygu**

- Gweithgareddau ataliol
- Cefnogi teuluoedd i gael y gwasanaeth gorau
- Ymyrraeth gynnar
- Meithrin sgiliau rhiantu a sgiliau ariannol
- Blynyddoedd Cynnar / Dechrau'n Deg

- 1) Cefnogi Teuluoedd : Gyda'n Gilydd (Gwaith gyda Theuluoedd); Plas Pawb/Caban Bach
- 2) Cefnogi plant / pobl ifanc sydd wedi neu ar fin cael eu heithrio : Torri'r Cylch / Amdani; Anogwyr Dysgu Mewn Ysgolion; Cynllun Potensial
- 3) Cefnogi plant mewn gofal a gofalwyr ifanc